

Tasg 1.**Pam mae chwarae yn bwysig?**

Yn ôl Anderson, Spainkhowe and Sharpe (2014) mae chwarae yn rhan bwysig o fywyd plentyn wrth iddynt gael y profiad i ehangu eu teimladau a dysgu sgiliau newydd trwy chwarae dan gyfarwyddyd y plentyn. Nododd Froebel (Early Education, dim dyddiad) fod chwarae yn llunio ei ddealltwriaeth o'r byd trwy arbrofi'r uniongyrchol gydag â'i fod y mynegiant uchaf o ddatblygiad plentyn wrth ddangos gwir bersonoliaeth fewnol y plentyn. Cytuna Bruce (2011, darllenwyd yn Educa) wrth ystyried bod chwarae yn trawsnewid plentyn ac yn cynorthwyo nhw i feddwl yn haniaethol am y gorffennol, gan ddefnyddio y gorffennol ag i ddychmygu y dyfodol, ychwanegai hefyd bod chwarae yn helpu plentyn gyda datrys problemau ag i ymgeisio ar bethau newydd. Yn yr un modd dywed Brussoni et al. (2012) bod chwarae yn cael i'w ddod drost fel gwaith i'r plant gan fod y chwarae yn helpu gyda

- Gwneud penderfyniadau
- Datrys problemau
- Gweithredu hunanreolaeth
- Dilyn rheolau
- Rheoleiddio emosiynau
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gyda chyfoedion

Dywed Waite-Stupiansky (2014) taw chwarae yw y ffordd bwysicach o ddysgu i blant, trwy chwarae maent yn dysgu am y bydoedd cymdeithasol, corfforol, emosiynol a gwybyddol o'u cwmpas. Wrth chwarae mae y plant yn herio eu hun, wrth ganolbwyntio am amser hir, adeiladu yn dalach a neidio yn uwch, maent hefyd yn ail ystyried eu creadigaethau, os nad ydynt yn gweithio y tro cyntaf, maent yn ceisio eto, ag eto, tan ei fod yn hapus gyda nhw, bydd y gwersi yma yn para gyda'r plant am oes.

Beth yw rôl chwarae hunangyferiedig?

Nodau Gray (2013) taw un o nodweddion hanfodol chwarae yw bod y plentyn yn cyfarwyddo ei hun, mae hyn yn gwneud e yn hunangyferiedig. Mae pob peth sydd yn digwydd wrth i blentyn chwarae i fod cael i'w ddigwydd ar delerau y plant, pan maent

yn weithredol maent yn creu a phwrpas. Yn gyntaf, nodau Hollis Montessori School (2018) bod chwarae hunangyfeiriedig yn adeiladu hyder y plentyn trwy archwilio wrth eu hun, ac maent yn sylweddoli bod nifer fawr o bethau gall y plant gwneud eu hun. Yn ail, maent yn annog annibyniaeth a dychmyg, ag yn olaf o'r gwefan yma, maent yn dysgu datrys problemau, rhoi'r gallu i'r plant i ddysgu ar gyflymder eu hun a meithrin cymhelliant mewnol.

Math o chwarae

Mae yna nifer fawr o wahanol fathau o chwarae i gael sydd yn gallu buddio ar ddatblygiad plentyn megis, *Speculations And Possibilities* (2006)

- Chwarae gwyllt didrefn- ymladd cleddyf dychmygol, ymladd, tag
- Chwarae dramatig – Dawnsio, gymnasteg
- Chwarae adeiladu- adeiladu tŵr, adeiladu den
- Chwarae cymdeithasol- gweud jôcs, stori
- Chwarae aml rôl - gwisgo i fyny, Chwarae 'mami a dadi'

Mae chwarae dychmygus wedi cael ei labelu i fod yn angenrheidiol yn ddatblygiad iechyd plentyn (*Psychological Bulletin*, 2012) ac ychwanegai Piaget (1962, darllenwyd yn *Psychological Bulletin*) fod chwarae yn gydran hanfodol ar gyfer datblygiad deallusol a chymdeithasol arferol y plentyn. Maent yn bwysig i adael y plentyn i ddewis ba fath o chwarae maent eisiau mynd ati i wneud a hefyd beth maent eisiau chwarae gyda. Ychwanegai Schiller (2012) "A human being becomes truly human when he plays." Mae hyn yn debyg i eiriau Froebel (2012 darllenwyd yn Goldstein) taw chwarae yw y rhan fwyaf yn fywyd plentyn wrth iddo fynegi enaid go iawn blentyn. Piaget (1964, Darllenwyd yn *UkEssays*, 2017) mae plant yn fwy gweithredol yn weithgareddau corfforol, er enghraifft, chwarae ymladd, dawnsio, rhedeg, ac ati. Mae safbwynt Piaget (1968, Darllenwyd yn *UkEssays*, 2017) yn gyda thipyn o wahaniaeth i Vygotsky (1976 Darllenwyd yn *UkEssays*, 2017), credodd Vygotsky bod chwarae yn hwylus ac yn cyflymu datblygiad gwybyddol mewn plant.

Sut gall oedolion cefnogi chwarae hunangyfeiriedig?

Rôl yr oedolyn yw rhoi'r cyfle i'r plant i gael yr amgylchedd priodol ar gyfer y datblygiad cywir ar gyfer chwarae hunan cyfeiriedig, er mwyn cael yr amgylchedd gorau iddynt hwy maent rhaid i'r oedolion cael amynedd a chofio bod gan y plant yr allu i wneud hun yn amser eu hun, Neaum (2016) mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r plentyn ymgeisio y dasg tan ei fod yn llwyddo cwblhau y dasg, ffordd arall o wneud hyn yw trwy gwestiynu y plentyn i weld os yw'n deall beth sydd angen gwneud ond dim gwneud e drost y plentyn. Yn ail, annog ymdrech dros lwyddiant, mae hyn yn gallu helpu y plentyn i eisiau rhoi ymdrech mewn i dasgiau wahanol, sydd wedyn yn gallu golygu mwy o ymdrech, sydd yn arwain tuag at fwy o lwyddiant yn y pendraw felly mae'r plentyn yn fwy tebygol o ddysgu mwy trwy wneud hyn.

Tasg 2.

Pam mae risg yn fuddiol i blant?

Dadleuai rhai bod rhywfaint o blant yn cymryd mwy o risg nag rhai plant eraill, ond mae pob plentyn gyda thuedd naturiol o gynnwys risg yn ei fywydau o oedran ifanc (Brussoni, 2012). Mae risg yn helpu plant i adeiladu fel unigolion gan fod yr hun maent yn dysgu o gymryd y risg yn aros gyda'r plentyn am oes, maent yn dysgu beth ddim i wneud a beth i wneud. Yn ail, dywed Brussoni, (2012) mae'n uwchleuo bod plant gyda gwahanol fathau o gyfleoedd i ddarganfod risg, er enghraifft, dringo, rhedeg, neidio, chwarae gemau cuddio (hide and seek) a chwarae gwyllt didrefn. mae yna wahanol fathau o ffurf mesur lefelau datblygu y plentyn â'i diddordeb yn gwneud pethau newydd, ac wrth chwarae y gemau rhestrwyd uchod maent yn rhoi'r cyfle i'r plant i ddewis risg maent yn gyfforddus gyda. Wrth ystyried y pwynt olaf gan Brussoni, (2012) maent yn dod yn glir i ni fod cymryd risg yn medru helpu plentyn i brofi ei therfynau corffol, datblygu ei allu canfyddiadol-modur, a dysgu osgoi ac addasu i amgylcheddau a gweithgareddau peryglus. Yn ôl Williams (2021) mae plant yn hoff iawn o ddringo i fyny pethau, ac yn hoff o'r syniad o'r posibilrwydd o syrthio. Yn ogystal â hyn nodau Williams (2021) bod plant yn hoff o weld y byd yn ffordd wahanol wrth iddynt gyrraedd y brig o rywbeth, er enghraifft, Coeden, fframyn ddringo, grisiau, ac yn y blaen. Wrth ddarllen Allen and Rapee (2005 darllenwyd yn Sandseter a Kennair, 2011) rydym yn cael yr awgrymiad bod chwarae peryglus yn rhan o broses arferol sy'n

addasu i amgylchedd presennol y plentyn, maent yn gwneud hyn trwy ddatblygu teimladau y plentyn i amddiffyn oddi wrth ffactorau risg ecolegol, wedi hynny mae chwarae peryglus fel ymddygiad sy'n lleihau ofn a braw yr unigolyn. Adolygiad arall o Sandseter a Kennair (2011), yw bod chwarae yn beryglus yn bennaf yn digwydd y tu allan wrth fynd ati i wneud gweithgareddau corfforol, yn aml maent yn heriol ac yn anturus, wrth i blant cymryd rhan yn y gweithgareddau corfforol maent yn ceisio pethau newydd allan felly mae'r risg yn uwch iddynt na'r arfer gan fod iddynt fod yn rhywbeth newydd iddynt. Wrth i'r plant fod allan mae mwy o le i'r plant chwarae, sydd yn gallu arwain tuag at fwy o gyffro a chanolbwyntio yn llai, sydd yn meddwl mwy o risg i'r plant i syrthio a chael damwain, ond fel arfer unwaith mae plentyn yn cwmpo a chael niwed maent yn ceisio atal hyn o ddigwydd eto. Er mwyn i blentyn ennill hyder maent yn rhaid iddyn nhw i ymgeisio pethau sydd yn ei ddychryn, mae'n rhaid iddynt i ddysgu bod methiant yn golygu ceisio eto ac eto ac wedyn yn y llwybr hir byddant yn dysgu sgil newydd wrth gymryd y risg McKay a McKay (2020).

Sut ydyn ni'n cydbwyso datgelu plant i risg tra'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed?

Er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i'r plentyn mae'n rhaid sicrhau bod y risg sydd ar gael i'r plentyn yn un rheoledig er mwyn atal damwain difrifol, McKay a McKay (2020). Yn ail, o'r wefan McKay a McKay (2020) mae asesu a rheoli sefyllfaoedd risgiau rheoledig yn gofyn i'r oedolyn i ofyn y cwestiynau canlynol i'w hun- "A yw y risg yma yn un mae'r plentyn yn gallu rhagweld eu hun?", "A yw y risg yn un sydd yn gallu achosi damwain difrifol i'r plentyn?", "A yw y risg yma yn un sydd yn cynning cyfle dysgu cadarnhaol?" Fe fydd ateb y cwestiynau yna felly yn rhoi cyfle i weld a yw'r risg yn un ddiogel i'r plentyn. Nid dileu risg yw'r nod, ond pwysoli'r risgiau a buddion. Ni fydd unrhyw blentyn yn dysgu am risg os yw wedi ei lapio mewn gwlân cotwm, Early Education (dim dyddiad). Wrth ddarllen erthygl Teach Early Years (Dim Dyddiad) maent yn uwchleuo bod cyfrifoldebau oedolion a hefyd pob darparwr cofrestredig sicrhau bod e'u safle ac yr offer a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn addas i fod o amgylch a chwarae gyda. Dwedir Weekes (2017) bod asesiadau risg yn ffurf dda o gadw risg difrifol allan o fywyd y plentyn gan eu bod yn gallu cydnabod a rheoli peryglon, Creu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr a'i ddefnyddio fel offeryn hyfforddi, gosod safonau rheoli risg sy'n seiliedig ar arferion diogel sydd yn dderbyniol a gofynion cyfreithiol, lleihau damweiniau difrifol ac arbed costiau trwy fod yn rhagweithiol yn hytrach na adweithiol, ac yn y blaen.

Tasg 3.**Arsylwi- Orlhain amser**

Wrth ymchwilio, daeth nifer fawr o wahanol fathau o arsylwadau ar glawr er mwyn sicrhau diogelwch i'r plant ifanc, rhai addas ar gyfer y portffolio yma yw, cofnod rhedeg, olrhain amser, traciwr rhyngweithio, rhestr o sgiliau tyfu, ac yn y blaen. Dengys y wefan Teach Early years (dim dyddiad) bod asesiad olrhain amser yn asesiad sydd yn cael i'w wneud i blentyn pob 5 munud dros gyfnod o amser, fel arfer awr, mae'r asesiad yn cael i'w nodi'n briff ond sydd yn cynnwys y gweithgaredd mae'r plentyn wedi ymgysylltu, pa ran o'r feithrinfa, ac y lefel o gyfraniadau yr amser nodwyd. Yn ail o'r wefan Teach Early Years (dim dyddiad) maent yn dangos wrth wneud y fath o asesiad yma mae'n dangos beth mae'r plentyn yn cyfrannu yn fwyaf, pa ardal o'r meithrin, a beth mae'r plentyn yn hollol anwybyddu. Ar y llaw arall awgryma Observing and Assessing Children's Learning and development (dim dyddiad) bod samplu amser yn cynnwys cwblhau arsylwad naratif byr o blentyn bob 10-15 munud, mae hyn yn gallu rhoi trosolwg eang o'r plentyn y lleoliad priodol, mae hyn yn gweithio gydag arsylwi gweithgareddau hefyd yn ôl y gwefan, ag eto yn rhoi cynnig ystod eang o bosibiliadau ar gyfer asesu. Wrth ddarllen geiriau synhwyrol Drummond (1993, darllenwyd yn Louis, 2018) maent yn pwysleisio ar pwysigrwydd asesu plentyn ar gyfer y effaith gorau ar gyfer datblygiad y plentyn yn y dyfodol, 'Assessment is the way which in our everyday practice, we observe children's learning, strive to understand it, and then put our understanding to good use'. Yn ôl UkEssays (2018) gall olrhain amser gael i'w ddefnyddio i fonitro ymddygiad, rhyngweithio'n gymdeithasol, deinameg o fewn grwpiau bach, a rhai mawr, sgiliau iaith a'r deunydd o feysydd darparu. yn ogystal â hyn, gall olrhain amser gael i'w gwblhau gyda disgrifiadau ysgrifenedig neu yn feini prawf sydd wedi cael i'w codio ymlaen llaw. Nodau UkEssays (2018) bod hi'n bwysig bod mwy nag un oedolyn/ gweithwyr y Feithrinfa yn cwblhau yr asesiad gyfer sicrhau cysondeb ag dibynadwyedd. Mae'r fath yma o asesu yn gallu ehangu ar gyfer pob unigolyn er mwyn iddo fod yn addas i fod plentyn, yn bendant mae'r ffurf yma o gymeryd asesiadau yn un gyflym a gall ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau neu yn unigol, ac nid oes angen gwybod unrhyw fath o gefndir am y plentyn. Serch hyn, dylid ystyried y broblem o bob ongl, mae asesu olrhain amser yn gallu darparu gwybodaeth sydd yn medru cymryd llawer o amser i'w dadansoddi'n gywir, a hefyd gall y fath yma o arsylwi

digwydd dros gyfnod hir o amser. Yn ogystal â hyn mae'r posibilrwydd yn uchel o golli rhyw ddigwyddiad sylweddol os nad yw yr amserlen arsylwi o fewn amser y digwyddiad, eto gan UKEssays (2018). Anfantais arall o'r dechneg yma yw bod yn dyn gydag amser, gan fod rhaid edrych ar yr amser trwy gydol y proses yma ar gyfer sicrhau dilyn yr amserlen yn drylwyr felly mae'r gweithwyr gyda chyfyngiadau llym trwy gydol yr arsylwad yma, (Siren Films LTD, dim dyddiad), er hyn bydd hyn yn rhoi'r gallu i'r gweithwr canolbwyntio ar y plentyn, a rhoi cyfnod gwrthrychol o ymddygiad y plentyn a bydd yn dangos a oes angen ymyrraeth a chynghorau. Mae'n bwysig cofio cyn dechrau ar unrhyw fath o arsylwadau i fod gennych nodau clir o beth rydych yn ceisio darganfod, heb nod a ffocws ni ellir dod i gasgliad defnyddiol cywir, Siren Films LTD (dim dyddiad).

Tasg 4.

Wrth asesu ac arsylwi plant pam mae chwarae yn bwysig?

Dywedai Hollis Montessori School (2018) dylau rhieni a gweithwyr addysgol asesu ac arsylwi plant tra maent yn chwarae oherwydd mae hyn yn medru rhoi mwy o ddealltwriaeth ar gryfderau ac anghenion o bob unigolyn. Yn ôl Azilo Training (2020) fe ddylau arsylwi plant o hyd cael i'w wneud wrth i blant chwarae, dysgu ac archwilio, mae hyn yn helpu deall sut maent yn datblygu, beth yw ei hoff bethau â'i gas bethau, yn ogystal â hyn, maent yn datgelu mwy am y plentyn fel unigolyn a sut maent yn rhyngweithio gyda phlant ac oedolion arall. Nodau Freud (1987, darllenwyd yn The Importance of Play) bod chwarae yn rhan o ffordd i ddatgelu teimladau ac emosiwn plentyn wrth i'r plentyn dangos i'w hun go iawn. Yn debyg iawn i eiriau Freud, nodau Piaget (1987, darllenwyd yn The Importance of Play) i helpu'r gweithwyr addysgol neu'r rhieni ddeall beth mae'r plentyn yn dysgu mae chwarae medru rhoi'r syniad yn fwy clir, hefyd gweld beth mae'r plentyn yn medru cwblhau heb gymorth wrth rhyngweithio gyda'r amgylchedd, felly maent yn gwneud hi'n symlach i arsylwi y plentyn. Dwedir Hewes (2010, darllenwyd yn McInnes et al., 2013) wrth ystyried safbwynt plentyn, y dull sydd yn ffocysu a chanolbwyntio ar chwarae y fwyaf yw yr un mwyaf llwyddiannus i blant. Mae ymchwil yn dangos bod rhai gweithwyr addysgol yn ansicr ar ei deimladau am chwarae a gweithgareddau sydd yn cael i'w arweini gan unigolion ifanc, dwedir Bennett, Wood a Rogers (1997, darllenwyd yn McInnes et al., 2013) bod mwy o barch yn mynd tuag at weithgareddau sydd yn cael i'w ymweld fel gwaith nag chwarae. Yn

ogystal â hyn, credi'r eraill Sylva, Roy a Painter (1980, McInnes et al., 2013) bod plant yn cael llai o opsiynau a chyfleoedd i chwarae, a llai o weithgareddau sydd yn cael i'w arwain gan y plant a bod y rhieni neu weithwyr addysgol yn cynnwys ei hun yn waith y plant ond llai tebygol i ymuno mewn i chwarae gyda'r unigolion. Gall oedolion helpu plentyn i ddysgu trwy chwarae wrth ymuno a chware gyda nhw ond gadael y plentyn i arweini y chwarae, ond yn ogystal â hyn ffocysu ar y cynnydd yn hytrach na nod. Wrth i'r plant chwarae mae cael oedolion a phobl yn hyn yn ymhelaethu ac adeiladu ar chware a diddordebau plant, fel gwneud sylwadau, cynnig deunyddiau newydd ac amrywiol yn medru helpu ar gynnydd plentyn. Nodau Community Play Things (2009) bod adlewyrchu emosiwn mae'r plant yn mynegu wrth iddynt chware a gwneud gweithgareddau gwahanol yn medru labelu a dylisu teimladau y plant. Yn ail o Community Play Things (2009) wrth i oedolion diffinio y broblem i'r plant maent yn medru cynorthwyo y plant i ddysgu ac ehangu ei sgiliau trafod, ac yn olaf, darparu amrywiaeth o ddeunyddiau i annog chwarae ac archwilio. Ysgrifennai Caro (2012) er mwyn helpu plentyn maent yn bwysig i'r plentyn cael cynnig o amgylchedd maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ynddo, cael dewis y fath o lwybr chwarae eu hun, eu cefnogi heb ymyrryd a gwyllo ac arsylwi tra iddyn nhw ddarganfod, dyfeisio ac archwilio. Gall clodfori plentyn annog nhw i weithio a chwarae yn well, oherwydd mae canmoliaeth a sylw cadarnhaol gallu helpu y plentyn i deimlo fel ei bod yn cael i'w garu a bod o'n cael i'w werthfawrogi. Yn bendant mae chwarae dda yn cael effaith positif ar fywyd plentyn o'r oedran ifanc, enghraifft o hyn yw cynyddu hunanymwybyddiaeth, hunan-barch, gwella a chynnal ei hiechyd corfforol a meddyliol, cael y cyfle i gymysgu gydag unigolion eraill, cynyddu hyder, gwella sgiliau cymdeithasol, rhoi'r plentyn yn gyfrifol yn y chwarae a gwella sgiliau, ac yn y blaen.

Rhestr Cyfeirnod

Anderson, G.T., Spainhowe, A.R. and Sharp, A.C. (2014) *"Where Do The Bears Go?" The Value Of Child-Directed Play: Play In The Early Childhood Years*, Ar gael o:

https://alabamapartnershipforchildren.org/wp-content/uploads/2016/12/Young_Children_May_2014_Play_A053371A6AE7A.pdf

(Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Azilo Training. (2019) *The Importance of Observation in Childcare settings*. Ar gael o:

<https://azilotraining.com/2019/08/16/the-importance-of-observation-in-childcare-settings.html#:~:text=By%20observing%20children%20as%20they,gain%20new%20interests%2C%20skills%20and> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Boldenow, A. (2016) *Encouraging Self-Directed Learning In Kids*. Ar gael o: <https://www.learningwithtlc.org/blog/selfdirectedlearning> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Brodie, K. (d.d.) *Making Observations*. Ar gael o:

<https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/making-observations>

(Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Bruce, T. (2011) *Learning Through Play: For Babies, Toddlers and Young Children*. 2nd Edn. London: Hodder Education.

<https://www.geteduca.com/blog/learning-through-play-tina-bruce/>

Brussoni, M., Olsen, L.L., Pike, I. a Sleet, D.A. (2012) 'Risky Play and Children's Safety: Balancing Priorities for Optimal Child Development' *int. J. Environ. Res. Public Health*, 9(9), pp. 3134-3148. <https://doi.org/10.3390/ijerph9093134>

Caro, C. (2012) *The Adult Role in Child-led Play – How to Become a Learning Ally*. Ar gael o: <http://www.nature-play.co.uk/blog/the-adult-role-in-child-led-play-how-to-become-a-learning-ally> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Community Play Things. (2009) *Facilitating and Supporting Childrens Play: Suggestions for Teachers*. Ar gael o:

<https://www.communityplaythings.com/resources/articles/2009/facilitating-and-supporting-childrens-play-suggestions-for-teachers> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Early Education. (d.d.) *Friedrich Froebel, who was Friedrich Froebel (1782-1852)*. Ar gael o: <https://www.early-education.org.uk/about-froebel> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Early Education (d.d.) *Taking Risks in Play*. Ar gael o: <https://www.early-education.org.uk/taking-risks-play> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Gray, p. (d.d.) *The Evolutionary Importance of Self-Directed Play*. Ar gael o: <https://thegeniusofplay.org/genius/expert-advice/articles/the-evolutionary-importance-of-self-directed-play.aspx#.YAAyli3fUqp> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Goldstein, J. (2012) *Play In Children's Development, Health And Well-Being*. Ar gael o: https://www.persil.com/content/dam/unilever/persil/global/english/online_comms/_persil_-_play_in_children_s_development_health_and_well-being-1816599.pdf (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Hollis Montessori School. (2018) *Why Encourage Self-Directed Play?* Ar gael o: <https://hollismontessori.org/blog/2018/2/19/why-encourage-self-directed-play> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Hughes, B. (2006) *Play Types linked to the revised EYFS Areas of Learning*. Ar gael o: <http://wwwold.somerset.gov.uk/EasysiteWeb/getresource.axd?AssetID=43983&type=full&servicetype=Attachment> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Laverty, B. a Reay, C. (d.d.) *How to put Safety First at your Nursery*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/safety-conscious-settings> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Louis, A. (2018) *Why Observe Children at Play*. Ar gael o: <https://blog.himama.com/why-observe-children-at-play/> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

McKay, B. a McKay, K. (2020) *The 3 Keys to Balancing Safety and Risk in Raising your Kids*. Ar gael o: <https://www.artofmanliness.com/articles/3-keys-balancing-safety-risk-raising-kids/> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

McInnes, K., et al. (2013) 'The nature of adult- child interaction in the early years classroom: Implications for children's perceptions of play and subsequent learning behaviour' *European Early Childhood Education Research Journal*, (2), pp.268–282, <http://dx.doi.org/10.1080/1350293X.2013.789194>

Neaum, S. (2016) *Child Development for Early Years Students and Practitioners*. [Exeter: Learning Matters.](#)

Sandseter, E.B.H. a Kennair, L.E.O. (2011) 'Children's Risky Play from an Evolutionary Perspective: The Anti-Phobic Effects of Thrilling Experience', *Evolutionary Psychology*, 9(2), pp.257-284.

<https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/147470491100900212>

Siren Films LTD. (d.d.) *Child Observation no.7 Time & Event Sampling*. Ar gael o:

https://www.kanopystreaming.com/sites/default/files/event_time_sampling.pdf

(Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

UkEssays. (2017) *Play In Early Childhood/ Theories*. Ar gael o: <https://www.ukessays.com/essays/childcare/early-childhood.php> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

UkEssays. (1970) *The Importance of Observing Children Children And Young People Essays*. Ar gael o:

<https://www.ukessays.com/essays/young-people/the-importance-of-observing-children-children-and-young-people-essay.php> (Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Weekes, J. (2017) *5 Benefits of Conducting risk assessments*. Ar gael o:

<https://healthandsafetyhandbook.com.au/5-benefits-of-conducting-risk-assessments/>

(Darllenwyd: 14th o Ionawr 2021)

Williams, M. (2021) *Examples of Risky Play(25+ Ideas)* Ar gael o:
<https://earlyimpactlearning.com/examples-of-risky-play-25-ideas/> (Darllenwyd: 14th o
Ionawr 2021)

<https://www.earlylearningtoolkit.org/sites/default/files/The%20Impact%20of%20Prete%20Play%20on%20Children%27s%20Development%3A%20A%20Review%20of%20the%20Evidence.pdf>